




Ffilm ddiemwnt hyblyg wedi'i gwneud â tâp gludiog

Sleid gan Neil Goalby. Ar gael yn rsc.li/4tH1WhK

Diemwnt yw un o'r deunyddiau caletaf a mwyaf brau. Fodd bynnag, pan gaiff ei dyfu mewn ffilmiau tenau ar is-haen, mae'n gallu bod yn rhyfeddol o hyblyg. Mae gwyddonwyr yn gallu tyfu diemyntau ar is-haenau silicon drwy ddyddodi anwedd cemegol. Roedd hi'n arfer bod yn anodd tynnu'r ffilmiau hyn o'r is-haen, sy'n gallu bod â thrwch o 6,000 o atomau. Ond mae ymchwilwyr bellach wedi gwneud ffilmiau diemwnt hyblyg centimetr o faint drwy eu tynnu o'r is-haen silicon gan ddefnyddio tâp gludiog. Mae'r ymchwilwyr yn credu y gallai'r diwydiant electronig ddefnyddio'r ffilmiau i oeri dyfeisiau lled-ddargludo.



© Jixiang Jing et al, Nature 2025

Mae gwyddonwyr yn gallu tynnu diemyntau tenau iawn o'u harwynebau tyfiant gan ddefnyddio tâp gludiog

Cwestiynau

1. Pa elfen sy'n ffurfio diemwnt?
2. Eglurwch pam mae diemwnt yn sylwedd caled fel arfer.
3. Awgrymwch pam mae ffilmiau diemwnt yn fwy hyblyg na diemwnt arferol.